

# ADRODDIAD BLYNYDDOL TELEDU CYLCH CAEËDIG 2019- 2020



Dyfarwyd Achrediad am fod yn Ganolfan Derbyn Larymau

## CYFLWYNIAD

Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â Chod Ymarfer TCC er mwyn gweithredu a rheoli'r system.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Heddlu Gogledd Cymru a sefydliadau busnes yn parhau i fod o'r farn y bydd TCC yn lleihau achosion o drosedd ac anhrefn cyhoeddus lle mae camerâu naill ai wedi'u gosod neu yn cael eu cyflwyno. Mae hefyd yn cynorthwyo i reoli traffig ac yn gwella hyder y gymuned, gan greu amgylchedd mwy diogel i drigolion, masnachwyr, twristiaid ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Dyma brif amcanion y System TCC:

- Cynorthwyo pan fo pryder am drosedd ac i ganfod ac atal troseddau.
- Hwyluso'r gwaith o ddal ac erlyn troseddwr mewn perthynas â throedd a threfn gyhoeddus.
- Rhoi mwy o ymdeimlad o ddiogelwch a sicrwydd i drigolion, ymwelwyr a busnesau.
- Gwella diogelwch cymunedol, rhoi hwb i'r economi ac annog mwy o ddefnydd o ganol y dref/canolfan siopa, ac ati.
- Cynorthwyo'r Awdurdod Lleol yn ei swyddogaeth gorfodi a rheoleiddio.  
(Yn benodol mewn perthynas â Chanlyniad 2 Diogelwch a 6 yr Amgylchedd, Cynllun Corfforaethol CBSC 2017-2022)
- Cynorthwyo i reoli traffig.

## Y CAMERÂU

Mae union leoliadau'r camerâu ar gael ar ein Gwefan Gyhoeddus, gweler y ddolen isod.

[Locations of CCTV Cameras - Conwy County Borough Council](#)

cwblhawyd adolygiad blynyddol llawn o leoliadau camerâu a'r cyfiawnhad am eu gosod, yn ogystal ag Asesiad Preifatrwydd o Effaith Data (DPIA) fel yr argymhellwyd gan y Cod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth newydd 2013 [Surveillance camera code of practice - Publications - GOV.UK](#) ac fel y nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion Deddf Diogelu Rhyddidau 2012.

Ar gyfer ein hadolygiad o TCC, casglodd Cyngor Conwy dystiolaeth ar 8 o ffactorau i gynorthwyo i benderfynu a yw pob camera unigol yn angenrheidiol ac yn gymesur, a rhoddwyd y canlyniadau mewn matrices sgorio oedd wedyn yn dangos pa gamerâu oedd yn sgorio isaf. Dyma'r ffactorau a ystyriwyd:-

- Trosedd mewn Ardal gyda Chamerâu Teledu Cylch Caeëdig, Heddlu Gogledd Cymru
- Digwyddiadau Teledu Cylch Caeëdig
- Addas i'r diben
- Rhentu ffibr a chostau eraill ynghlwm â'u cynnal
- Diogelu'r llinell welediad ar gyfer y dyfodol e.e. a yw lleoliad y camera yn addas i ddefnyddio technoleg ddiwifr newydd.
- Cyfraniadau Ariannol
- Barn y Gweithredwr
- Tawelwch meddwl i'r cyhoedd

Ni chafodd unrhyw gamerâu eu dadgomisiynu yn ystod 2019-20 oherwydd bod y sgorio wedi gwella yn dilyn gostyngiad i'r costau rhedeg cysylltiedig (canslo cylchedau ffeibr), defnydd llawn technoleg llinell welediad a chyfraniadau ariannol gan Gynghorau Tref a Chymuned mewn ardaloedd lle gosodwyd TCC Gofod Cyhoeddus.

### **TCC SYMUDOL**

Cafodd camerâu symudol y Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn 2018 oherwydd collwyd cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Fodd bynnag, drwy broses dendr cafodd Adran TCC CBSC gyllid ar gyfer 10 camera symudol mantais gymunedol newydd drwy'r contractwr a ddyfarnwyd. Efallai bydd y camerâu hyn yn cael eu hychwanegu a'u hadleoli o fewn cynllun Conwy drwy gydol cyfnod y contract, yn amodol ar ganfod cyllid ychwanegol i'w gosod, unwaith mae lleoliadau wedi cael eu nodi. Ni fyddant dan reolaeth y bartneriaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ond byddant yn perthyn i Gonwy yn unig.

### **YR YSTAFELL REOLI**

Nid fu unrhyw newidiadau i'r ystafell reoli newydd, mae'n parhau i gael ei alluogi gan IP (Protocol Rhyngwyd), felly mae'n cael ei gysylltu drwy Rwydwaith Conwy ac yn cael ei adeiladu i'r fanyleb angenrheidiol ar gyfer Canolfan Monitro Larymau (ARC). Mae'r holl systemau diogelwch a'r mesurau a gymerwyd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r ffrwd incwm hon a fwriedir nawr wedi cael eu profi ac wedi cael eu cymeradwyo gan archwilyr o gorff asesu a elwir yn Arolygydd Diogelwch Cenedlaethol (NSI), sy'n darparu'r achrediad.



## STAFFIO

Dim newid i'r nifer staffio, mae 6 gweithredwr rhan amser ac un rheolwr llawn amser.

Mae'r holl staff wedi eu trwyddedu gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) ac maent wedi pasio Gwiriad Personél heb fod trwy'r Heddlu, roedd hyn yn ofyniad i'n galluogi i barhau i ddefnyddio radio tonnau awyr Heddlu Gogledd Cymru.

## NEWYDDION

Rydym yn falch o gyhoeddi y dyfarnwyd TCC Conwy, ar y cyd gyda Gwasanaethau Teleofal Galw Gofal gymeradwyaeth Aur NSI ARC ar 31/01/2020, gweler Atodiad 1. Ni yw'r unig awdurdod lleol categori aur yng Nghymru sy'n bodloni gofynion y safon hon. Mae hyn yn cynnwys ardystiad cynnyrch i amryw safon Brydeinig a'r UE, gan gynnwys ardystiad rheoli i *BS EN ISO 9001:2015 Quality Management System*, sy'n ein caniatáu i fonitro Larymau Tresmasu ac Oedi, Larymau Cymdeithasol, Larymau Tân, Systemau TCC a Dyfeisiau Gweithio Ar Eich Pen Eich Hun.


Mae gwaith yn mynd rhagddo i integreiddio Adeiladau CBSC, gyda'n cwsmer cyntaf, y Ganolfan Ddiwylliant newydd yng Nghonwy, ym mis Ionawr 2020.

## YSTADEGAU 2019 - 2020


Mae'r ystadegau canlynol yn rhoi manylion nifer y digwyddiadau a gofnodwyd gan Weithredwyr TCC. Roedd yna **6057** o ddigwyddiadau TCC y llynedd, **517** o'r rhain yn ymwneud â monitro safle. Nid yw digwyddiadau TCC yn cofnodi trosedd o reidrwydd e.e. gweithredwr yn monitro ci yn baeddu ac yn pasio'r wybodaeth i Swyddog Gorfodaeth Amgylcheddol, Defnyddiwr Cyswllt Radio Cynllun Gwyllo Tafarndai yn gofyn i TCC fonitro gŵr meddw, TCC yn gofyn i'r heddlu fynychu a rhoddir cyngor addas gan swyddogion.

*Digwyddiadau fesul dyddiau'r wythnos*

*Digwyddiadau fesul awr o'r dydd*



*Digwyddiadau fesul blwyddyn, am y 6 blynedd diwethaf (dim blwyddyn yn gorffen)*



**Melyn = Safle Monitro**

Camerâu (40 Camera Prysaraf)	Digwyddiadau
001 Aml gamerâu	900
<b>055 LAN 24 Builders Street Maes Parcio Coetsis Llandudno</b>	<b>548</b>
082 COL 8 Ffordd Yr Orsaf/ Bae Colwyn (Top)	222
036 LAN 5 Llewelyn Avenue / Top Mostyn Street/Llan	184
040 LAN 9 Mostyn Street/Tafarn y Carlton Llan	166
083 COL 9 Ffordd yr Orsaf/ Rhodfa'r Tywysog Bae Colwyn (B	157
092 COL 18 Ffordd Abergele /Greenfield Road/Bae Colwyn	108
041 LAN 10 Mostyn Street /Madog Street. Llandudno	104
095 COL 21 Ffordd Abergele /Greenfield Road/Bae Colwyn	95
087 COL 13 Maes Parcio Ivy Street /Bae Colwyn	95
034 LAN 3 Glodaeth Avenue Y Palladium/Llandudno	91
042 LAN 11 Lloyd Street/Madog Street, Llandudno	91
046 LAN 15 Vaughan Street/Gorsaf Rheilffordd, Llandudno	85
050 LAN 19 Broadway Boulevard, Llandudno	85
045 LAN 14 North Western Gardens, Llandudno	84
028 LJ 8 Gorsaf Rheilffordd Cyffordd Llandudno	84
113 COAST1 Cylchfan Pensarn /Slaters/ Pensarn/Abe	83
100 OC 1 Tafarn y Plough / Hen Golwyn	82
089 COL 15 Eglwys Sant Paul/Abergele Road/Bae Colwyn	78
049 LAN 18 Mostyn Champneys/B&Q/Llandudno	77
039 LAN 8 Y Senotaff Traeth y Gogledd Llandudno	74
088 COL 14 Seaview Road/Bayview Road/Bae Colwyn	74
043 LAN 12 Mostyn Street/Royal Bank of Scotland, L	70
085 COL 11 Bolard (Camera statig gwaelod yr orsaf)	67
030 LJ 10 Maes Parcio Maelgwyn/Cyffordd Llandudno	66
053 LAN 22 Craig y Don Llandudno	61
093 COL 19 Greenfield Road/Bayview Road/Bae Colwyn	60
065 ROS 5 Promenâd/Rhos Road/Promenâd Llandrillo-yn-Rhos	59
086 COL 12 Seaview Road/Canolfan Siopa Bayview /Bae Colwyn	56
080 COL 6 Conway Road/ Rhodfa Penrhyn /Bae Colwyn	50
108 AB 2 Stryd y Farchnad /George & Dragon Inn/Abergele	46
037 LAN 6 Gwesty'r Empire Top Mostyn Street Llandudno	44
058 LAN 27 Siopau Ffordd Las/Llandudno	44
078 COL 4 Hen Swyddfa'r Post /Princess Drive/Bae Colwyn	43
048 LAN 17 Maes Parcio Coetsis Mostyn Broadway, Llandudno	42
044 LAN 13 Trinity Square/Mostyn Street, Llandudno	42

15 Math Uchaf o Ddigwyddiad	Digwyddiad Nifer
Ymddygiad	599
<b>Cyhoeddi Codau ar gyfer Parcio</b>	<b>335</b>
Amgylchiadau Amheus	198
Monitro unigolion ar gais eraill	197
Pryder am ddiogelwch	188
Patrôl Golau Gwyn	182
Domestig	179
Monitro Unigolion Hysbys/Amheus	168
Gwrthdrawiad Traffig (RTC)	151
Ymosodiad	144
Larwm yn canu	141
Plentyn MFH	117
Gyrru ac Yfed Adran 5	115
Cadw golwg ar gerbyd	112
Difrod troseddol	111
Chwilio am Unigolyn	100

Ardal	Nifer y Digwyddiadau
Llandudno	2521
Bae Colwyn	1711
Cyffordd Llandudno	450
Llandrillo-yn-Rhos	231
Conwy	230
Hen Golwyn	208
Abergele	158
Pensarn	85
Penmaenmawr	69
Mochdre	63
Bae Cinnel	46
Peulwys	36
Tywyn	34
Deganwy	25
Llanrwst	13
Glan Conwy	10

## CYLLID 2019/2020

Rydym yn ein hail flwyddyn o'r Prosiect Uwchraddio Digidol TCC. Dyma gynllun gwario i arbed 5 mlynedd a ddechreuodd ar 04/01/2018 a fydd yn gwireddu arbedion blynyddol o £80,000 erbyn diwedd cyfnod y prosiect yn sgil canslo'r contract rhentu ffeibr. Mae costau ariannu cyfalaf ar gyfer y prosiect yn cael eu had-dalu ar gyfer yr amcan gost o £58,200 bob blwyddyn.

2019/2020	Y flwyddyn hyd yn hyn		
	Cyllideb	Gwirioneddol	Amrywiant
TCC	£	£	£
CYFANSWM GWEITHWYR	202,732	220,503	17,771
CYFANSWM ADEILADAU	850	10,307	9,457
CYFANSWM CLUDIANT	250	101	-149
CYFANSWM CYFLENWADAU	118,230	88,281	-29,949
GWASANAETHAU CEFNOGI	1,200	2,040	840
CYFANSWM INCWM	100,040	-75,160	24,880
CYFANSWM TCC	223,222	246,072	22,850